



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Institute of Education
Addysg i Gymru Education for Wales

LLAWLYFR MODWL

Cod y Modwl: ECAD6007C

**Teitl y Modwl: - *Astudiaethau Craidd 1* Y
dysgwr: pwy ydw i'n ei addysgu?**

**TAR Llwybr Cynradd ac Uwchradd
gyda Statws Athro Cymwysedig**

LEFEL 6

YR ATHROFA

2019-20

1. Manylion cyswllt

Os bydd arnoch angen trafod rhywbeth sy'n ymwneud â'r modwl, cysylltwch â:

Siân Brooks

E-bost: S.Brooks@pcydd.ac.uk <<mailto:S.Brooks@uwtsd.ac.uk>>

Ffôn: 01792 482028

Ishmael Lewis

E-bost: ishmael.lewis@pcydd.ac.uk

Ffôn:

2. Ein disgwyliadau

Gobeithio y byddwch yn mwynhau'r modwl a'r rhaglen. Cofiwch ein bod yma i'ch cefnogi chi. Dylech:

- Wneud defnydd da o gyfleusterau ac adnoddau'r Brifysgol
- Mynd i bob sesiwn
- Ymddwyn yn gyfrifol
- Cyflwyno aseiniadau erbyn y dyddiad terfyn
- Ymroi a chymryd rhan ym mhob sesiwn

Darllenwch [Reoliadau Myfyrwyr y Brifysgol](#)

AMCANION

- Rhoi i athrawon dan hyfforddiant y sgiliau dadansoddi a gwerthuso beirniadol, i ddeall y gwahanol bersbectifau sy'n sail i theorïau datblygiad plant a mynd i'r afael â ffactorau allanol sy'n effeithio ar lesiant a datblygiad.
- Ennyn diddordeb myfyrwyr ym model arfer trawsnewidiol sy'n cychwyn newid mewn lleoliad addysgol, ar sail tystiolaeth yn sgil adfyfyrio a gwerthuso'n feirniadol.

DEILLIANNAU DYSGU

Ar ôl cwblhau'r modwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r athro dan hyfforddiant allu dangos y gallu i wneud y canlynol:

- dangos tystiolaeth o ddeall damcaniaethau ac ymchwil sy'n effeithio ar lesiant, datblygiad plant a dysgu gan blant 0-19 a defnyddio hwn gyda'u harfer personol;
- bod yn bersonol, beirniadol eich safbwynt ynghylch rôl athro proffesiynol mewn perthynas â diwallu anghenion amrywiaeth eang o blant a phobl ifanc, gan gynnwys herio tybiaethau, credoau sy'n arwain at ragfarn ac ystrydebau;
- adfyfyrio'n feirniadol a gwerthuso ystod o wahanol ddulliau o ddiwallu anghenion amrywiol pob dysgwr mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gyfiawnhau'r dewisiadau a wnaed mewn arfer personol.

Perthynas â phedwar diben Cwricwlwm i Gymru 2022:

Datblygu plant a phobl ifanc yn:	Perthynas â'r modwl hwn: Bydd myfyrwyr yn gallu:
Dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes.	Bodloni anghenion amrywiol yr holl ddysgwyr i sicrhau cynnydd disgyblion.
Cyfranwyr mentrus, creadigol, sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith.	Manteisio ar amrywiaeth o gyfleoedd dysgu creadigol, hyrwyddo annibyniaeth a defnyddio eu gwybodaeth a'u sgiliau ar gyfer dysgu ac addysgu.
Dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd.	Mabwysiadu rôl athro proffesiynol wrth ddeall a pharchu anghenion a hawliau disgyblion yn aelodau o gymdeithasau amrywiol, a herio tybiaethau a chredoau sy'n arwain at ystrydebu.
Unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas	Dangos dealltwriaeth o theorïau ac ymchwil sy'n effeithio ar hyrwyddo llesiant meddwl ac emosiynol disgyblion trwy ddatblygu hyder, cydnerthedd ac empathi yn eu hymarfer.

4. Cyflwyniad i'r Modwl

Yn y modwl hwn bydd athrawon dan hyfforddiant yn gwneud y canlynol:

- gwerthuso'n feirniadol ymchwil a theorïau allweddol ac ymchwil sy'n sail i ddatblygiad holistaidd plant a phobl ifanc, ynghylch sicrhau cynnydd disgyblion - gan gynnwys dealltwriaeth feirniadol o lythrennedd corfforol a materion cyfoes eraill.
- gwerthuso a defnyddio damcaniaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac ymchwil ar gyfer ymarfer personol, gan gyfiawnhau'r dewisiadau pedagogaidd a wneir a rhannu canfyddiadau mewn lleoliad proffesiynol.
- cael dealltwriaeth ddofn o sut mae cyfrifoldebau cytundebol, bugeiliol a chyfreithiol (gan gynnwys Anghenion Dysgu Ychwanegol, diogelu ac amddiffyn plant, llesiant, hawliau a lleisiau plant) yn rhyngweithio mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd.
- meddu ar ddealltwriaeth ddofn o anghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol, deallusol ac anghenion eraill sy'n effeithio ar ddysgu a datblygiad, a nodi mathau o addysgeg sy'n lleihau effeithiau negyddol.
- gwerthuso'n feirniadol strategaethau a dulliau i gefnogi orau gydraddoldeb ac amrywiaeth, gan gynnwys herio barn a thybiaethau am y norm.

5. Cynnwys y Modwl

Bod yn ymchwilydd moesegol

- Adfyfrio a allai'ch disgwyliad eich hun ar gyfer y dysgwyr hyn fod yn eu rhwystro rhag eu cynnydd. Mae angen i hyn ddigwydd mewn lleoliad adfyfyriol cydweithredol, e.e. adnoddau ar gyfer cyfleoedd cwestiynu.

Bod yn ymchwilydd medrus

- Casglu'r holl dystiolaeth sydd ar gael er budd dysgwyr unigol
- Dod â'r hyn a ddysgwyd hyd yma at ei gilydd i gynllunio ar gyfer dysgu un plentyn / cyfiawnhau penderfyniadau pedagogaidd.
- Defnyddio gwerthuso i werthuso effeithlonrwydd addysgeg a gynlluniwyd.

Bod yn ymchwilydd sgeptigol

- Gwerthuso'n feirniadol ymchwil a theorïau allweddol ac ymchwil sy'n sail i ddatblygiad holistaidd plant a phobl ifanc; gwerthuso a rhannu'r defnydd ar ddamcaniaeth ac ymchwil i arfer personol, gan gynnwys cyfarfod anghenion grwpiau penodol o ddysgwyr; gwerthuso'n feirniadol farn a thybiaethau am grwpiau o ddysgwyr, gan ddarparu cymorth ar gyfer eich penderfyniadau.

Bod yn rhan o broffesiwn sy'n ymholi

- Cyfrannu i gymuned o ymarferwyr sy'n ymholi; gwybod a ddylid, pryd a sut i rannu deilliannau'r ymholi ar lawr dosbarth; mynd ati'n rhagweithiol i gyfrannu i amrywiaeth o gynulleidfaoedd sy'n ymwneud ag ymholiad a chanfyddiadau eraill.

Bod yn ymchwilydd moesegol	
Bod yn ymchwilydd medrus	
Bod yn ymchwilydd sgeptigol	
Bod yn rhan o broffesiwn sy'n ymholi	
Gweithgaredd pontio (cyfnewid gwybodaeth ddeallusol a phrofiadol)	

CYNNWYS DANGOSOL SESIYNAU

D.S. Gallai trefn y sesiynau newid

Sesiwn	Cynnwys
1.	Cyflwyniad i'r Modwl / Datblygiad plant 0-19: natur holistaidd y dysgu.
2.	Pwy yw pwy 1: Cyflwyniad i theorïau allweddol a gwahanol ddulliau: - Lluniadaeth, Ymddygiadaeth a dull Dyneiddiol - Dulliau hanesyddol a chyfoes.
3.	Llesiant, hawliau a lleisiau plant. - Cysylltiadau â Maes Dysgu Iechyd a Llesiant.
Tasg Gyfeiriol 1	Ymchwilio i waith: - Yr Athro yr Arglwydd Robert Winston - Yr Athro Tanya Byron - Yr Athro Sarah Jane Blakemore
4.	Trafodaeth Grŵp o Dasg Gyfeiriol 1 Pwy yw pwy 2: Addysgegau dysgu ynghylch Pedwar Diben y cwricwlwm newydd Cysylltu hunan barch, hunan effeithiolrwydd a hunaniaeth athrawon â hunan barch, hunan effeithiolrwydd a hunaniaeth disgyblion.
5.	Dogfennau ADY a rhwymedigaethau statudol. - Datblygiadau diweddar - Cymorth Cynhwysol ac ymyriadau.
Tasg Gyfeiriol 2	Paratoi trechydd acronymau / cwblhau cwrs ASD ar-lein.
6.	Gwirio Tasg Gyfeiriol 2 Paratoi ar gyfer Pontio 1: Astudiaeth Achosion a Methodoleg Achosion Critigol Sut y gall achos critigol lywio arfer yn y dyfodol?
7.	Paratoi ar gyfer Pontio 2: Dulliau a strategaethau ar gyfer arsylwi'r dysgwr. - Technegau arsylwi - Canllawiau moesegol.
Tasg Gyfeiriol 3	Creu map meddwl heriau modern i lythrennedd corfforol.

8.	ADY – seminarau / cynhadledd (DPP)
9.	ADY – seminarau / cynhadledd (DPP)
10.	Gwirio Tasg Gyfeiriol 3 Deall cysyniad llythrennedd corfforol. • Datblygiad holistaidd plant. • Pwysigrwydd yr elfen gorfforol a symudiad o ansawdd i ddatblygiad plant. • Cysylltiadau â Maes Dysgu Iechyd a Llesiant.
11.	Datblygiad cymdeithasol, corfforol ac emosiynol 0-19mllynedd. • Gwerthuso'n feirniadol y defnydd cadarnhaol a negyddol ar y cyfryngau cymdeithasol gan gynnwys rhwydweithio, bwllo ar-lein. • Grwpiau cyfeillgarwch, eithrio a bwllo. • Cydweithredu ag asiantaethau y tu allan.
Tasg Gyfeiriol 4	Darllenwch ddeunyddiau pontio wrth baratoi.
12	Llythrennedd emosiynol ac iechyd meddwl. • Ffactorau sy'n dylanwadu ar gynnydd (trosiannau, profedigaeth) • Datblygiad ymwybyddiaeth o lesiant mewn ysgolion • Cysylltiadau â Maes Dysgu Iechyd a Llesiant.
13.	Deall ymddygiad heriol a strategaethau cynhwysol ar lawr dosbarth. • Sefydlu amgylchedd dysgu cadarnhaol gan gynnwys rhieni ac oedolion ychwanegol.
Tasg Gyfeiriol 5	Paratoi ar gyfer tasg adfyfyriol grŵp.
14.	Beth nesaf? Dadansoddi'n feirniadol y gwaith o olrhain cynnydd disgyblion. • Asesu ffurfiannol • Dulliau casglu data.
15.	Gweithdy aseiniad. • Trafodaeth Grŵp o Dasg Gyfeiriol 5 • Mewnbwn Arweinydd Modwl • Trafodaeth cyfoedion o achosion hollbwysig.

6. Tasgau asesu a chanllawiau

COD Y MODWL	TEITL Y MODWL	DULL ASESU
ECAD6007C	Astudiaethau craidd 1:- Y Dysgwr: pwy ydw i'n ei addysgu?	Aseiniad ysgrifenedig. Gwerthusiad beirniadol a nodi'r camau addysgu a dysgu ac addysgu nesaf sy'n canolbwyntio ar astudiaeth achos dysgwr unigol neu grŵp o ddysgwyr, sy'n seiliedig ar astudiaeth achos critigol a arsylwyd (cyfwerth â 5000 o eiriau). Cyflwyno: 29/10/19 (erbyn 23:59)

Gweler y ffurflen Manyleb Asesu (ar Moodle) am wybodaeth a chanllawiau asesu manylach.

7. Rhestr Ddarllen

RHESTR DDARLLEN

Categori	Eitemau'r Rhestr Ddarllen	Electronig
Hanfodol	Arshad, R., Wrigley, T. and Pratt, L. (eds) (2012) <i>Social Justice re-examined: dilemmas and solutions for the classroom teacher</i> . London: IOE Press.	☐
Hanfodol	Black-Hawkins, K., Florian, L. & Rouse, M., (2007) <i>Achievement and Inclusion in Schools</i> , [e-book], Abingdon: Routledge.	☒

Hanfodol	Cohen, L., Manion, K. and Morrison, K.R.B. (2011) <i>Research Methods in Education</i> 7th ed. London; New York : Routledge.	☒
Hanfodol	Department for Education, Lifelong Learning and Skills. (2016) <i>Inclusion and Pupil Support</i> , Cardiff: Welsh Assembly Government. Available at: http://gov.wales/docs/dcells/publications/160318-inclusion-and-pupil-support-en.pdf	☒
Hanfodol	Donaldson, G. (2015) <i>Successful Futures</i> . Crown Copyright. Cardiff. Available at: http://gov.wales/docs/dcells/publications/150317-successful-futures-en.pdf	☒
Hanfodol	Howard, C., Burton, M., Levermore, D., & Barrell, R. (2017) <i>Children's Mental Health and Emotional Well-being in Primary Schools</i> . London: Learning Matters.	☐
Hanfodol	National Assembly for Wales. (2002) <i>Special Educational Needs Code of Practice for Wales</i> , Cardiff: National Assembly for Wales.	☒
Hanfodol	National Assembly for Wales. (2006) <i>Safeguarding Children: Working Together under the Children Act 2004</i> , Cardiff: NAW.	☒
Hanfodol	Peer, G. & Reid, L. (2016) <i>Special Educational Needs: a guide for inclusive practice</i> (2 nd ed.). London: Sage Publications.	☐
Hanfodol	Rose, J., Gilbert, L. & Richards, L.V. (2015) <i>Health and Well-being in Early Childhood</i> . London: SAGE.	☒
Hanfodol	Tripp, D (2012) <i>Critical incidents in teaching: developing professional judgement</i> . London: Routledge.	☐
Pellach	Dixon P, (2016) <i>Testing Times: Success, Failure and Fiasco in Education Policy in Wales since Devolution</i> . Cardiff: Welsh Academic Press.	☒
Pellach	Farrell, M. (2012) <i>Educating Special Children</i> (2nd ed.) Oxon: Routledge.	☒
Pellach	Gray, C. & Macblain, S. (2015) <i>Learning Theories in Childhood</i> (2nd ed.) London: Sage Publications Ltd.	☒
Pellach	Guldborg, H. (2009) <i>Reclaiming Childhood – Freedom and Play in an Age of Fear</i> . London: Routledge.	☐
Pellach	OECD, (2015) <i>Improving Schools in Scotland: an OECD Perspective</i> . Paris:OECD.	☐

Pellach	Pashler H, Bain P.M., Bottge B.A., et al. (2007) <i>Organizing Instruction and Study to Improve Student Learning. IES Practice Guide NCER 2007-2004</i> . Washington, DC: National Center for Education Research.	☒
Pellach	Shearer, C. et al (2018) <i>How Is Physical Literacy Defined? A Contemporary Update</i> in Journal of Teaching in Physical Education, volume 37, p 237-246.	☒
Pellach	Unicef Early Childhood Development - https://www.unicef.org/dprk/ecd.pdf	☒
Pellach	Welsh Assembly Government. (2008) <i>Personal and Social Education Framework for 7 to 19-year olds in Wales</i> , Cardiff: Welsh Assembly Government.	☒
Pellach	Welsh Assembly Government. (2010) <i>A Curriculum for All Learners</i> , Cardiff: Welsh Assembly Government.	☒